# Graduate Stories
## School of History, Welsh History & Archaeology

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



Meet **Don Potter-Edwards** who studied History at Bangor University 2008-2011. Don mainly focused on the more modern social and political modules taught in the School and graduated with 2:2 BA in History. Since leaving university Don qualified as a Vehicle Technician through an apprenticeship with BT Fleet and is  now focused on forwarding his career within the business.

**Caroline Potter-Edwards** studied History at Bangor from 2008 - 2013. In her own words, Caroline 'enjoyed studying modern, social history, particularly my undergrad dissertation on Mods and Rockers in the South-East' and graduated with first class honours (BA) and merit (MA).




Caroline started working in the NHS in 2010 as a summer job and is now a Commissioning Project Manager in Mental Health for two local Clinical Commissioning Groups.

**Adele Thackray** came to Bangor University, as a mature student in 2005 to do a BA (hons) in History with Archaeology. Whilst studying Adele secured  work placement with the Local Archaeological Trust which led onto employment as a trainee archaeologist on a very exciting multi-period site on Anglesey. This then progressed to a position of Finds Officer, cataloguing and identifying artefacts from 6000-year-old pottery sherds to early medieval skeletons.



When Adele graduated from Bangor University with a 2:1 in 2008, she was offered a position in Heritage Management piloting a Monuments at Risk database, which meant collating all the information for all the monuments in North West Wales. She also began her Masters in Celtic Archaeology at Bangor University and lectured in Prehistory part-time. Since 2010 Adele has worked in the Welsh Governments Historic Environment Service, Cadw.

After gaining a 2:1 BA (Hons) University of Liverpool in Archaeology and History, **Erin Lloyd Jones** has worked for the National Trust as Visitor Services Manager at Erddig, for the Heritage Lottery Funded 'Heather and Hillforts Project' in north east Wales, and as a Graduate Teaching Assistant in Archaeology at Bangor University before beginning her role as Lifelong Learning Manager for Cadw, and later becoming Cadw's Heritage Interpretation Manager.



Erin came to Bangor University as a postgraduate student to investigate the hillforts north east Wales and borderlands. Having now worked in the heritage sector for over ten years, she cheekily describes herself as 'Indiana Lloyd Jones'- getting people excited about archaeology!



**Mark Hughes** graduated with an MA in History from Bangor in 2012. He then joined UK Civil Service as an Administrative Officer in the Department for Works and Pensions, making decisions surrounding family maintenance and securing financial protection for vulnerable children. Mark now works for the Department for Communities and Local Government on European funded projects which include assessing and making recommendations on proposals for eligibility and regional strategic impact; acting as a secretariat to local regional committees; and contract management.

**Marc Collinson** is a part-time PhD student in Modern History. After graduating with a BA in Modern & Contemporary History, Marc continued his studies at Bangor University, completing a self-funded MA in 2012.  After a year out, which included a brief spell working in the University Library, Mark started his PhD on the Labour Party and immigration policy in the 1960s and 1970s.



Marc funds his studies by working part-time—he is a part-time teaching assistant within the School—and securing small grants which from academic societies and charities, to assist with fees, maintenance and research travel costs. This year, Marc is looking forward to presenting a paper at a conference organised by researchers at the Sorbonne Nouvelle University as well as giving a paper on Roy Jenkins at the international NAASWCH conference held at Harvard University.

# Straeon Graddedigion

## Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



Bu **Don Potter-Edwards** yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Bangor 2008-2011. Canolbwyntiodd Don yn bennaf ar y modiwlau modern mwy cymdeithasol a gwleidyddol a ddysgid yn yr Ysgol, a graddiodd gyda 2:2 BA mewn Hanes. Ers gadael y brifysgol mae Don wedi cymhwyso fel Technegydd Cerbydau drwy brentisiaeth gyda BT Fleet ac mae bellach yn canolbwyntio ar ei yrfa gyda'r cwmni.

Astudiodd **Caroline Potter-Edwards** Hanes ym Mangor rhwng 2008 a 2013. Yn ei geiriau ei hun, bu Caroline yn 'mwynhau astudio hanes modern, hanes cymdeithasol, yn enwedig fy nhraethawd hir ar y Mods a'r Rocyrs yn y De-Ddwyrain', a graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf (BA) a theilyngdod (MA).




Cafodd Caroline waith gyda'r GIG dros yr haf yn 2010 ac mae hi bellach yn Rheolwr Project Comisiynu mewn Iechyd Meddwl i ddau Grŵp Comisiynu Clinigol lleol.

Daeth **Adele Thackray** i Brifysgol Bangor fel myfyriwr aeddfed yn 2005 i wneud BA (anrhydedd) mewn Hanes gydag Archeoleg. Pan oedd hi'n astudio, sicrhaodd Adele leoliad gwaith gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol leol ac arweiniodd hynny at swydd fel archeolegydd dan hyfforddiant ar safle amlgyfnod cyffrous iawn ar Ynys Môn. Cafodd waith wedyn fel Swyddog Darganfyddiadau, yn catalogio ac yn nodi arteffactau, o ddarnau crochenwaith 6000 oed i sgerbydau o'r oesoedd canol cynnar.



Pan raddiodd Adele o Brifysgol Bangor gyda 2:1 yn 2008, cynigiwyd gwaith iddi'n Rheoli Treftadaeth, yn gyfrifol am gronfa ddata Henebion mewn Perygl, a oedd yn golygu cyfosod yr holl wybodaeth am yr holl henebion yng ngogledd-orllewin Cymru. Dechreuodd ei gradd Meistr mewn Archeoleg Geltaidd ym Mhrifysgol Bangor, a darlithio'n rhan amser ar Gynhanes hefyd. Ers 2010 mae Adele wedi bod yn gweithio yng Ngwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru, Cadw.

Graddiodd **Mark Hughes** gydag MA mewn Hanes o Fangor yn 2012. Ymunodd wedyn â Gwasanaeth Sifil y DU fel Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn gwneud penderfyniadau ar gynnal teuluoedd a sicrhau diogelwch ariannol i blant agored i niwed. Mae Mark bellach yn gweithio i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar brojectau a gyllidir gan Ewrop sy'n cynnwys asesu a gwneud awgrymiadau ar gynigion am gymhwyster ac effaith strategol ranbarthol; gweithredu fel ysgrifennydd i bwyllgorau rhanbarthol lleol; a rheoli contractau.



Mae **Marc Collinson** yn fyfyriwr PhD rhan amser mewn Hanes Modern. Ar ôl graddio â BA mewn Hanes Modern a Chyfoes, parhaodd Marc â'i astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor gan gwblhau MA, a ariannwyd ganddo ef ei hun, yn 2012. Ar ôl blwyddyn allan, lle bu'n gweithio am gyfnod byr yn Llyfrgell y Brifysgol, dechreuodd Marc ei PhD ar y Blaid Lafur a'i pholisi mewnfudo yn y 1960au a'r 1970au.



Mae Marc yn ariannu ei astudiaethau drwy weithio'n rhan amser - mae'n gynorthwyydd addysgu rhan amser yn yr Ysgol - a thrwy sicrhau grantiau bychain gan gymdeithasau ac elusennau academaidd er mwyn cyfrannu at y ffioedd, cynhaliaeth a chostau teithio ymchwilio. Eleni, mae Marc yn edrych ymlaen at gyflwyno papur mewn cynhadledd a drefnir gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol y Sorbonne Nouvelle yn ogystal â rhoi papur ar Roy Jenkins yng nghynhadledd ryngwladol NAASWCH a gynhelir ym Mhrifysgol Harvard.